**Llythrennedd**
**Deunyddiau enghreifftiol**

# Darllen er gwybodaeth/Ysgrifennu er gwybodaeth
# Blwyddyn 4: Y Titanic

**Agweddau o’r fframwaith sydd yn cael eu henghreifftio**

**Darllen er gwybodaeth**
Mae dysgwyr yn gallu:

- adnabod yn gywir y prif syniadau a’r wybodaeth allweddol mewn testunau; defnyddio’r wybodaeth yn eu gwaith eu hunain.

**Ysgrifennu er gwybodaeth**
Mae dysgwyr yn gallu:

- ysgrifennu i bwrpas, gan ddangos ymwybyddiaeth o’r darllenydd e.e. *drwy ddewis geirfa a nodweddion cyflwyno priodol*
- trefnu’r ysgrifennu drwy ddechrau defnyddio paragraffau er mwyn creu dilyniant neu adrannau rhesymegol
- defnyddio iaith sy’n briodol ar gyfer ysgrifennu, gan gynnwys Cymraeg safonol pan fo’n berthnasol
- cynhyrchu llawysgrifen sy’n glir ac yn ddarllenadwy ac a all fod yn glwm
- amrywio brawddegau gyda threfn geiriau, ymadroddion a chymalau
- ysgrifennu brawddegau yn defnyddio nifer o ferfau yn gywir yn yr amser presennol cwmpasog, negyddol, gorffennol a chryno
- ymdrechu i sillafu geiriau sy’n cynnwys patrymau mwy cymhleth, e.e. *geiriau amlsillafog*
- sillafu geiriau anghyfarwydd yn cynnwys y/u/i, *e.e. rhywun*.

© Hawlfraint y Goron Medi 2012

WG14632

# Llythrennedd
# Deunyddiau enghreifftiol

**Tystiolaeth**


Y Titanic

Ar Ebrill y 10 fed 1912 fe hwyliodd Y Titanic o Southampton i Efrog-Newydd. Am 11.40 yr hwyr, Ebrill 14 eg. fe darodd Y Titanic fynydd iâ. Am 2.20 y bore ar Ebrill 15 fed fe suddodd Y Titanic. Roedd tua 2,228 o bobl ar fwrdd Y Titanic. Bu farw tua 1,517 ac fe achubwyd tua 711.

Roedd tua 350 o bobl yn y dosbarth cyntaf, tua 300 yn yr ail ddosbarth a tua 880 yn y trydydd ddosbarth. Roedd criw o tua 900 ar Y Titanic.

Roedd Y Titanic yn foethus ac yn grand iawn ac roedd pobl yn ei galw 'n palas ar y môr, roedd hi'n anferthol. Adeiladwyd Y Titanic yn Belfast. Perchnogion Y Titanic oedd White Star Line, Bruce Ismay oedd perchenog y llong. Roedd pawb yn meddwl na allai suddo. Mordaith gyntaf Y Titanic oedd hon ac roedd yn bwysig cyrraedd America yn gyflym.

Cyrhaeddodd llong Y Carpathia am bedwar o'r gloch y bore a casglodd y 711 a oedd yn y cychod achub. Cyrhaeddodd Efrog Newydd ar Ebrill 18 fed.



**Llythrennedd**
**Deunyddiau enghreifftiol**

## Ysgrifennu er gwybodaeth
## Blwyddyn 4: Aberaeron

**Agweddau o'r fframwaith sydd yn cael eu henghreifftio**

Mae dysgwyr yn gallu:

- ysgrifennu i bwrpas, gan ddangos ymwybyddiaeth o'r darllenydd, *e.e. drwy ddewis geirfa a nodweddion cyflwyno priodol*
- defnyddio nodweddion trefnu priodol, megis cyflwyniad a diweddglo
- trefnu'r ysgrifennu drwy ddechrau defnyddio paragraffau er mwyn creu dilyniant neu adrannau rhesymegol
- defnyddio gwybodaeth weledol, *e.e. darluniau, diagramau a graffiau*, sy'n glir ac yn berthnasol i'r testun ysgrifenedig
- defnyddio iaith sy'n briodol ar gyfer ysgrifennu, gan gynnwys Cymraeg safonol pan fo'n berthnasol
- ysgrifennu brawddegau yn defnyddio nifer o ferfau yn gywir yn yr amser presennol cwmpasog, negyddol, gorffennol a chryno
- defnyddio ystod o atalnodi i ddynodi brawddegau a dechrau defnyddio dyfynnod a choma i farcio cymalau ac ymadroddion.

© Hawlfraint y Goron Medi 2012

WG14632


**Tystiolaeth**

Aberaeron

Ddoe fe aethon ni i Aberaeron. Fe ddysgais i bod lle mae'r ysbyty nawr yn arfer bod yn dloty. Tloty yw rhywle lle mae pobl tlawd yn mynd neu falle bod ddim tŷ gyda nhw ond doedd neb yn hoffi mynd i'r tloty. Roedd tai Sioraidd sydd yn gymesurol am tai oes Fictoria.





Roedd quoins yn mynd lawr ochrau rhai o'r tai. Ac roedd cerrig cloi ar y drysau a'r ffenestri.





da iawn

Dyma rhai o enwau cychod cafodd eu hadeiladu yn Aberaeron: Dyma'r cychod brig Star of Wales, Aeron-Vale, Lima, Killa Lass, Feronia, William a Mary, Xanthipe.




© Hawlfraint y Goron Medi 2012


Roedd afon yn arfer rhedeg ar bwys y Castle a lawr at y cae rygbi. Gwelon ni garreg tu fas y Castle yn dang[os] ble roedd y afon yn arfer rhedeg.



✓


Roedd arfer bod 10 tŷ mewn rhes ag ysgol roedden nhw yn galw 'r 10 tŷ yn Bedlam Barracks ond ei enw swyddogol oedd Mynachdy Row. Ond yn anffodus cafodd yr ysgol a'r 10 tŷ ei'u golchi allan i'r mô[r]





✓

Alban Tomos Jones Gwynne rhoddodd yr arian i adeiladi'r harbwr. Cymherodd 4 mlynedd.



✓

Ar ddiwedd y dydd aethom ni i cae Sgwar i dynnu llun.

Ardderchog.

# Ysgrifennu er gwybodaeth
# Blwyddyn 4: Masnachwr Tuduraidd

**Agweddau o'r fframwaith sydd yn cael eu henghreifftio**

Mae dysgwyr yn gallu:

- defnyddio manylion cefnogol i esbonio'r prif syniad(au), gan gynnwys sylwadau ac esboniadau pan fo'n berthnasol
- cynllunio'u gwaith ysgrifennu drwy drefnu'r cynnwys
- defnyddio iaith sy'n briodol ar gyfer ysgrifennu, gan gynnwys Cymraeg safonol pan fo'n berthnasol
- cynhyrchu llawysgrifen sy'n glir ac yn ddarllenadwy ac a all fod yn glwm
- amrywio brawddegau gyda threfn geiriau, ymadroddion a chymalau
- defnyddio cysyllteiriau i greu dilyniant oddi fewn i frawddegau
- ysgrifennu brawddegau yn defnyddio nifer o ferfau yn gywir yn yr amser presennol cwmpasog, negyddol, gorffennol a chryno
- sillafu'n gywir holl eiriau amledd uchel yn annibynnol
- ymdrechu i sillafu geiriau sy'n cynnwys patrymau mwy cymhleth, *e.e. geiriau amlsillafog*
- sillafu geiriau anghyfarwydd yn cynnwys y/u/i, *e.e. rhywun*
- cadarnhau sillafu geiriau lluosog
- defnyddio treigladau mwyaf cyffredin yn gywir, *e.e. ar ôl 'i'  ac 'o', 'fy' ac 'yn' sy'n dynodi enw lle*.

© Hawlfraint y Goron Medi 2012 

**Tystiolaeth**

Masnachwr Tuduraidd

Roedd y masnachwr yn ddyn cyfoethog.
Wrth gerdded mewn trwy'r drws roedd
bwrdd pren. Yn eistedd tu ôl i'r bwrdd
byddai'r masnachwr yn gweithio.
Roedd y Tuduriaid yn taflu perlysiau
ar y llawr oherwydd doedd y tŷ ddim
yn arogli yn neis iawn. Os byddai y
teulu yn gyfoethog byddai'r plant
yn cael gwersi offerynnau cerdd.
Roedd gan y dyn busnes long a
byddai'n prynu a gwerthu pethau fel
mehyn, caws, gwin, pysgod, grawn, defnydd,
lledr, glo a sebon. Byddai'r teulu yn talu
bachgen i ddod i ofalu am y tân oherwydd
roedden nhw ddim yn gadael y tân i
ddiffodd yn y nos.

© Hawlfraint y Goron Medi 2012